GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS AGORED CYNGOR SIR DDINBYCH

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Pennod 2)

TREF Y RHYL

Rhoddir rhybudd drwy hyn fod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") drwy ei bwerau o dan Adrannau 59, 63 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, yn bwriadu gwneud y gorchymyn canlynol:

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

1. Gall unigolyn awdurdodedig ofyn am i unigolyn, neu grŵp, o fewn yr ardal dan gyfyngiadau wasgaru pan fyddant yn amau yn rhesymol fod unrhyw unigolyn yn y grŵp hwnnw yn achosi, neu'n debygol o achosi niwsans, dychryn, aflonyddwch, neu ofid i unrhyw unigolyn arall.

2. Mae unigolyn sy'n ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi ei wahardd rhag aros (un ai fel unigolyn neu mewn grŵp o ddau neu fwy o bobl) o fewn yr ardal dan gyfyngiadau wedi i unigolyn awdurdodedig ofyn i'r grŵp wasgaru ac ni ddylai ddychwelyd am gyfnod penodol o hyd at 48 awr.

3. Caiff unigolyn ei wahardd rhag loetran yn nrysau siopau o fewn yr ardal dan gyfyngiadau , gyda'r diben ymddangosiadol o achosi niwsans, aflonyddwch, dychryn neu ofid.

4. Caiff unigolyn ei wahardd rhag loetran mewn cyflwr o feddwdod neu dan ddylanwad cyffuriau o fewn yr Ardal dan Gyfyngiadau.

Cardota

1. Caiff unigolyn ei wahardd rhag dynesu at unrhyw unigolyn i ddibenion cael arian drwy gardota neu drwy osod eu hunain mewn lleoliad er mwyn cardota.

2. Caiff unigolyn ei wahardd rhag aros wedi eistedd ar y llawr lle gall roi'r argraff ei fod yn ymwneud â neu yn bwriadu ymwneud â chardota.

Yfed ar y Stryd

1. Caiff unigolyn ei wahardd rhag bod â chynhwysydd agored o alcohol yn ei feddiant mewn lle cyhoeddus (hyd yn oed os yw'n wag) o fewn yr ardal sydd wedi ei dynodi gan y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Agored.

2. Mae bod â chynhwysydd o alcohol heb ei agor mewn man cyhoeddus o fewn yr ardal dan gyfyngiadau dan amgylchiadau a fyddai'n arwain unigolyn rhesymol i amau fod cynhwysydd o'r fath yn debygol o gael ei agor a'i ddefnyddio mewn man cyhoeddus o fewn yr ardal dan gyfyngiadau wedi ei wahardd.

3. Rhaid i unigolyn ildio unrhyw alcohol yn ei feddiant pan ofynnir iddo wneud hynny gan unigolyn awdurdodedig yn yr ardal dan gyfyngiadau.

Unigolyn awdurdodedig - Swyddog yr Heddlu, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Swyddog y Cyngor

Gweler y gorchymyn arfaethedig drafft isod. Gallwch weld mwy o fanylion a'r rhesymau dros wneud y gorchymyn drwy drefniant blaenorol yn ystod oriau gwaith arferol yn swyddfeydd Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych. Mae'r gorchymyn arfaethedig hwn hefyd wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor www.denbighshire.gov.uk

Os hoffech wneud sylwadau ynghylch y gorchymyn arfaethedig, gwnewch hynny yn ysgrifenedig erbyn 2019, gan nodi'r rhesymau dros eich gwrthwynebiad, ar e-bost at Gary.Williams@Denbighshire.gov.uk neu drwy'r post at Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Rhuthun, LL15 1YN.

Dyddiedig mis Hydref 2019

…….
Emlyn Jones (Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)